

Cyngor Cymuned Llanfrothen
COFNODION CYFARFOD MISOL MAWRTH 2019
4 Mawrth 2019 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

1. YMDDIHEURIADAU

Nyfain Wynn

2. DATGAN DIDDORDEB

Datganodd y Clerc ddiddordeb yn eitem 4.5, sef Cyflog y Clerc, a gadawodd yr ystafell pan y cafodd y mater ei drafod.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 7 Ionawr 2019.

Cynnig: Glyn Griffiths
Eilio: Rhydwen Roberts

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Richard Jones, Nia Povey, Rhydwen Roberts, Llio Griffiths, Glyn Griffiths
Cadeirio: Dafydd Watts

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Cysylltu Cymunedau

Mae Michelle Clarke yn edrych i gydlynu ac edrych ar ardaloedd gwledig a'u anghenion. Mae hi'n bwriadu cysylltu â nifer o gymunedau gwledig yng Ngwynedd cyn dod yn ôl atom, i weld a fydd unrhyw syniadau a drafodwyd yn addas i gymuned Llanfrothen.

Ar fater cael arosfan fws yn Llanfrothen, gofynnwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd am fanylion manylach o'u costau i osod arosfan dros y ffordd i Siop Llanfrothen, a gweld a fyddai ganddynt wrthwynebiad i'r Cyngor Cymuned wend y gwaith eu hunain.

4.2 13 Garreg Frech

Cafwyd cyfarfod safle rhwng y Cynghorydd Dafydd Watts, y Cynghorydd Glyn Griffiths a chynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd a Parc Cenedlaethol Eryri ar y safle.

Nid yw Cyngor Gwynedd yn debygol o fynd â'r mater ymhellach, oherwydd nid oes ganddynt yr adnoddau priodol i fedru adfeddiannu'r tŷ o dan y ddeddfwriaeth tai gwag.

Fodd bynnag, mae'n debyg fod yna ddyled treth cyngor o tua £10,000 ar 13 Garreg Frech, ac fe awgrymwyd mai un opsiwn fyddai erlyn y perchennog am y swm dyledus, ac wedi cael dyfarniad llys, gwneud cais am orchymyn arwystl, (charging order), a gorfodi gwerthu'r tŷ i adennill y ddyled.

Awgrymwyd felly ysgrifennu at Gyngor Gwynedd, yn cynnwys yr Arweinydd, y Prif Weithredwr a'r swyddogion perthnasol yn mynegi pryder nad oes ganddynt yr adnoddau digonol i fedru gweithredu er lles trigolion Gwynedd.

Mynegwyd hefyd bryder fod yna gymaint o ddyled treth cyngor ar yr eiddo, gan fod unrhyw ddyled treth cyngor yn golygu colled ariannol i goffrau Cyngor Gwynedd a'i thrigolion.

Penderfynwyd hefyd y dylid ysgrifennu hefyd at yr Aelod Cynulliad lleol, Dafydd Elis-Thomas, gan fod tai yn fater datganoledig ac mai Llywodraeth Cymru wnaeth gyflwyno'r ddeddfwriaeth tai gwag.

4.3 Mynwent Tan Lan

Cafwyd pris o £972.00 gan gwmni Colyn Jones i wneud gwaith cychwynnol o broffilio tir y fynwent, gan gynnwys y llethrau er mwyn gweld pa ddarpariaeth o feddau ychwanegol fyddai'n bosibl ar gyfer y dyfodol.

Cytunwyd i dalu'r swm yma i gwmni Colyn Jones er mwyn dechrau'r gwaith o gynllunio darpariaeth y fynwent ar gyfer y dyfodol.

4.4 Y Ganolfan

Cytunwyd y byddai'n synhwyrol trosglwyddo'r Ganolfan i drydydd parti gan y byddai hynny'n golygu na fyddai unrhyw dreth cyngor yn dyladwy.

Cyn medru gwneud hyn bydd angen gofyn am ganiatad Cyngor Gwynedd, oherwydd mae'n debyg fod Y Ganolfan ar lês tymor hir i Gyngor Cymuned Llanfrothen, ac mae'n arferol gorfod cael caniatad Cyngor Gwynedd cyn trosglwyddo'r lês i unrhyw sefydliad arall.

4.5 Cyflog y Clerc – Talu Wrth Ennill

Cytunwyd y dylai'r Clerc gysylltu efo Dunn & Ellis, Cyfrifwyr, Porthmadog er mwyn gofyn iddyn nhw wneud trefniadau TWE ar gyfer y Clerc. Rhagwelir y bydd hyn yn costio tua £200 y flwyddyn.

4.6 Diogelwch a Chyflymdra Traffig, Llanfrothen

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn mesur cyflymder y traffig y tu allan i'r ysgol yn Llanfrothen, ac yn fodlon gwneud y fan honno yn barth 20 mya.

Fodd bynnag, cafwyd canlyniad arolwg cyflymder traffig ger y gofgolofn yn Llanfrothen gan Gyngor Gwynedd, a'u casgliad oedd nad oedd goryrru yn y fan hyn gyda'r mwyafrif helaeth o geir yn gyrru o dan y cyflymder o 30 mya.

Trafodwyd y mater, a deuthpwyd i'r casgliad nad oedd y rhan fwyaf o geir yn torri'r cyfyngiad cyflymder 30mya oherwydd natur chulni'r ffordd ger y gofgolofn. Ystyriwyd y byddai cyfyngiad cyflymder o 20mya yn fwy priodol ar gyfer y darn yma o ffordd, o gofio fod yna groesffordd, culni'r ffordd a diffyg gwelediad.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Helen Mary Jones A.C., Aelod Cynulliad Canolbarth a Gorllewin Cymru a Dafydd Elis-Thomas, yr Aelod Cynulliad lleol.

4.7 Canolfannau Iaith Gwynedd

Cafwyd ateb gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru ar ran Eluned Morgan A.S. Yn anffodus doedd yr ateb ddim yn derbyn fod Llywodraeth Cymru yn rhannol gyfrifol am arwain at doriadau posibl yn y gwasanaeth gan Gyngor Gwynedd, na sut yr oedd y toriadau ariannol yn cyd-fynd â bwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Lywodraeth Cymru eto er mwyn gofyn

4.8 Syniadau ar gyfer Cyfarfod Ymddiriedolwyr Portmeirion – Ebrill 2019

- Cynllun Hydro
- Maes Parcio Brondanw
- Arosfan fws – cefnogaeth ariannol neu gynnig adeilad?
- Biomass

5. Gohebiaeth

- (a) Parc Cenedlaethol Eryri – Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd
- Derbyniwyd er gwybodaeth.

6. Materion Ariannol

- 6.1** Cyflog a chostau Clerc, Ionawr a Chwefror 2019 £166.66x2
- 6.2** Ad-dalu Clerc, Cyngor Gwynedd bin brown 2019/20 £33.00
- 6.3** Torri Gwair Mynwent Tan Lan 17 Ionawr 2019, Dylan Edwards. Talwyd.
- 6.4** Scottish Power £93.46. Talwyd.

6.5 Rhoddion Ariannol

- (a) Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd £0
- (b) Clwb Ffermwyr Ifanc, Arfon £50
- (c) Yr Wylan £50
- (ch) Ysgol Llanfrothen £150

7. Ceisiadau Cynllunio

Dim

8. Materion Eraill

8.1 Adolygu Cludiant Cyhoeddus Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal arolwg o anghenion trigolion Gwynedd o ran cludiant cyhoeddus.

8.2 Ymgynghori Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Tai a Throsi Adeiladau yng Nghefn Gwlad – Cynllunio Gwynedd a Môn

Mae Gwynedd a Môn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y canllawiau cynllunio sy'n berthnasol i gynllunio tai a throsi adeiladau yng nghefn gwlad.

8.3 Cost Claddu Llŵch mewn Bedd presennol

Cafwyd ymholiad i gladdu llŵch mewn bedd presennol ym mynwent Tan Lan.

Cytunwyd mai £125 ddylai'r pris fod.

8.4 Baner a pholyn Siop Llanfrothen

Mae'r polyn wedi torri yn y gwynt ac felly mae angen polyn Newydd ac angen holi'r siop rhag ofn fod y Faner wedi ei chadw.

Credir fod y polyn un un gwydr ffeibr tua 5m o uchder.

8.5 Canllaw grisiau Siop Llanfrothen

Mae'r canllaw ar y grisiau y tu ôl i Siop Llanfrothen wedi torri.
Cytunwyd i gael pris er mwyn ei drwsio.

9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cytunwyd mai dyddiad y cyfarod nesaf fyddai **nos Lun Mai 13
2019 am 7 yh**